Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

**GORFFENNAF 2025**

**Croeso** i rifyn mis Mehefin o Fwletin yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Y mis hwn, gwelwyd rhai datblygiadau cyffrous mewn perthynas â Storfa Ddiogelu Cymru, Sesiwn Rhwydwaith Cymorth ADUS arall, a diwrnod allan yn Llundain i'r Tîm ADUS a fynychodd lansiad yr adroddiad Learning from Loss gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig. Darllenwch ymlaen i gael rhagor o wybodaeth!

**ADUSau sydd wedi’u comisiynu**

Cafodd un ADUS ei gomisiynu'r mis hwn, felly cafodd cyfanswm o 23 o ADUSau eu comisiynu ers 1 Hydref.

Ymarfer Plant: 13
Ymarfer Oedolion: 4
yn ymwneud â Cham-drin Domestig: 4
yn ymwneud ag Ymarfer Oedolion a Cham-drin Domestig: 1
yn ymwneud â Dynladdiad Iechyd Meddwl: 1

## Newyddion

Ddydd Mawrth 15 Gorffennaf, mynychodd y Tîm ADUS ddigwyddiad i lansio adroddiad newydd y Comisiynydd Cam-drin Domestig, sef Learning from Loss: Ensuring the lessons from domestic homicide reviews lead to change. Mae'r adroddiad yn amlinellu casgliadau tebyg i'r rhai a nodwyd yn 2018 gan ddau adolygiad gan Lywodraeth Cymru - yr angen am oruchwyliaeth genedlaethol o argymhellion, ac atebolrwydd am eu gweithredu. Yng Nghymru, mae holl argymhellion ADUS yn cael eu holrhain gan yr Hwb Cydgysylltu, a'u trafod yng nghyfarfodydd misol y Grŵp Tasgau a Chydlynu. O Hydref 2025 ymlaen, bydd holl argymhellion ADUS a'u statws cwblhau ar gael i'w gweld ar y Dangosfwrdd ADUS trwy ei dudalennau gwe.

## Storfa Ddiogelu Cymru

Ar 11 Gorffennaf, rhoddwyd manylion mewngofnodi i chwe deg wyth o Adolygwyr a Chadeiryddion gweithredol a nifer o Staff Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu, ar gyfer cael mynediad o bell a phrofi Storfa Ddiogelu Cymru. Dyma'r grŵp cyntaf y tu allan i Brifysgol Caerdydd i gael mynediad o bell.

Bydd y gwaith profi yn cynnwys pethau fel mewngofnodi, chwilio a gweld adroddiadau, a chwilio am argymhellion.

Bydd y cyfnod profi hwn yn dod i ben ar 8 Medi 2025 pan fydd y paratoadau'n dechrau ar gyfer y cam profi 'agored' nesaf, yn ogystal â chynllunio ar gyfer trosglwyddo Storfa Ddiogelu Cymru yn dechnegol i Lywodraeth Cymru yn 2026.

## Cinio Rhannu Gwybodaeth a Dysgu

Ar 9 Gorffennaf, cynhaliwyd Sesiwn Cinio a Dysgu ar rannu gwybodaeth yng nghyd-destun ADUSau i Swyddogion Diogelu Data Iechyd. Daeth nifer da ynghyd yn y digwyddiad hwn, a ddilynodd Sesiwn Gofyn i'r Gweinidog, a chafodd y sesiwn ei recordio i'w defnyddio fel adnodd yn y dyfodol.

**Hoffem glywed gennych chi!**
Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn rhan o ADUS â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

## Hyfforddiant

Yn ddiweddar, rhoddwyd cipolwg ar yr animeiddiadau Ymwybyddiaeth i Bawb a Digwyddiad Dysgu i'r Grŵp Llywio Hyfforddiant. Mae'r ddau amimeiddiad yn edrych yn wych, a byddant yn barod i'w defnyddio yn fuan ar ôl ychydig o fân newidiadau terfynol.

## Sesiwn Rhwydwaith Cymorth

Fe wnaeth tua 70 o Adolygwyr a Chadeiryddion gofnodi ar gyfer y Sesiwn Rhwydwaith Cymorth ar Adolygiadau a'r Cyfryngau y mis hwn. Ymhlith yr uchafbwyntiau, roedd cyflwyniad gan Jan Pickles ar ei phrofiadau gyda'r cyfryngau, a sesiwn holi ac ateb craff gyda phanel profiadol a oedd yn cynnwys Adolygwyr, Cadeiryddion, a staff yr Uned Fusnes. Roedd gan rai o'r bobl a oedd yn bresennol y canlynol i'w ddweud am y sesiwn:

'*Defnyddiol ac addysgiadol iawn, yn hoffi'n fawr y sbotolau ar feysydd allweddol mewn ADUSau.'*

‘*Mor ddefnyddiol! Fel adolygydd tro cyntaf roedd hyn yn amhrisiadwy'*

Mae'r Hwb Cydgysylltu, ar y cyd â'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd, wedi datblygu taflen i deuluoedd ynghylch y cyfryngau ac ADUSau.